The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# Cais gan Horizon Limited am Orchymyn yn rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Gorsaf Bŵer Niwclear Wylfa Newydd

## Pwyntiau Gweithredu a gododd o'r Gwrandawiad DCO drafft a gynhaliwyd yng Ngwesty Bae Trearddur, ddydd Mercher 6 Mawrth 2019

| CAM GWEITHREDU | DISGRIFIAD | GAN BWY | PRYD | SYLWADAU |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Diffinio cychwyn mewn perthynas â j) adeiladau dros dro – Yr Ymgeisydd i drafod p'un a yw'n bosibl diffinio uchder/hyd/lled mwyaf ar gyfer adeiladau dros dro | Yr Ymgeisydd | Terfyn Amser 8 | |
| 2 | Egluro p'un a ddefnyddir yr adeilad niwclear cyntaf neu'r concrit niwclear cyntaf fel sbardun; ar ôl egluro, dylid rhoi diffiniad eglur ac adolygu'r dogfennau i sicrhau bod yr ymadrodd iawn yn cael ei ddefnyddio drwyddo draw | Yr Ymgeisydd | Terfyn Amser 7/8 | |
| 3 | Diwygio'r diffiniad o'r Datganiad Amgylcheddol (ES) i gynnwys yr Atodiad i'r ES er mwyn mynd i'r afael â phryderon ynglŷn â'r diffiniad o gynnal drwy gydol y Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) | Yr Ymgeisydd | Terfyn Amser 7 | |
| 4 | Materion yn ymwneud ag Erthygl 19 i dderbyn sylw trwy Ddarpariaethau Amddiffynnol | Yr Ymgeisydd / Cyngor Sir Ynys Môn (IACC) | Terfyn Amser 7 | |
| 5 | Diwygio Erthygl 78 yng ngoleuni cyflwyniad Terfyn Amser 6 Tŷ'r Drindod (6-054) | Yr Ymgeisydd | Terfyn Amser 8 | |
| 6 | Dylai Erthygl 79, Atodlen 19, Paragraff 4, Is-baragraff 2(d) fod o fewn 1 ac nid 2 fel y mae ar hyn o bryd – i'w diwygio | Yr Ymgeisydd | Terfyn Amser 8 | |
| 7 | Diwygio'r Memorandwm Esboniadol i amlygu cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru (LlC) mewn perthynas â Thir y Goron, gan groesgyfeirio i'r lleiniau perthnasol yn y Llyfr Cyfeirio | Yr Ymgeisydd / LlC | Terfyn Amser 8 | |
| 8 | Dylai'r Gwaith Trin Carthffosiaeth gerllaw | Yr | Terfyn | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Gerddi Cestyll gael ei reoli naill ai trwy ofyniad neu gynllun a restrir yn A21(4) i alluogi ymgynghoriad â LlC a chyflwyniad/cymeradwyaeth gan IACC i adlewyrchu ei leoliad gerllaw ased treftadaeth dynodedig | Ymgeisydd | Amser 8 | |
| 9 | Dylai'r Ymgeisydd ystyried p'un a ddylai gwaith Rhif 16 gael ei gynnwys yn y rhestr o waith a restrir o dan 'ddatblygiadau eraill cysylltiedig' yn Atodlen 1 | Yr Ymgeisydd | Terfyn Amser 7 | |
| 10 | IACC i roi manylion strwythur ffioedd neu gynllun adennill costau amgen y dymunai ei ddefnyddio i gyflawni gofynion | IACC | Terfyn Amser 7 | |
| 11 | Nodyn Ôl-wrandawiad (PHN) gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i gadarnhau'r geiriad arfaethedig ynglŷn â ffioedd y cytunwyd arno i raddau helaeth. Dylid mewnosod y geiriad diwygiedig yn y DCO drafft (dDCO) | CNC/Yr Ymgeisydd | Terfyn Amser 7 ar gyfer CNC a Therfyn Amser 8 ar gyfer yr Ymgeisydd | |
| 12 | Dylai'r Ymgeisydd wirio p'un a yw'r cyfeiriad at ffigur D9-9 yn Atodlen 3(1) sy'n ymddangos yn y dehongliad o'r 'Safle Derbynnydd Madfallod Dŵr Cribog' yn gywir. Os yw'n anghywir, dylid mewnosod y ffigur cywir | Yr Ymgeisydd | Terfyn Amser 7 | |
| 13 | Dylai'r Ymgeisydd ystyried ail-lunio'r Strategaeth Fesul Cyfnod (PW2) yn seiliedig ar gyfnodau amser, ac os na, pam, a hefyd ystyried p'un a yw'r teitl yn iawn | Yr Ymgeisydd | Terfyn Amser 7 | |
| 14 | LlC i ddarparu PHN ynglŷn â pham mae'n ystyried na fyddai sŵn ac aflonyddu posibl o ganlyniad i ffrwydro/twnelu/cloddwaith yn atal y Llety Dros Dro i Weithwyr rhag cael ei ddarparu'n gynharach yn y broses | LlC | Terfyn Amser 7 | |
| 15 | LlC i ddarparu PHN sy'n rhoi diweddariad ar ganlyniadau ei thrafodaethau â'r Ymgeisydd ynglŷn â materion trafnidiaeth a'r ddau bwynt sy'n parhau i fod heb eu datrys | LlC | Terfyn Amser 7 | |
| 16 | IACC i roi manylion ynglŷn â ph'un a oedd cynllun digwyddiadau trafnidiaeth neu gynllun arall tebyg wedi'i argymell fel amod i'r cais cynllunio ar gyfer gwaith Paratoi a Chlirio'r Safle (SPC) | IACC | Terfyn Amser 7 | |
| 17 | Yr Ymgeisydd i roi ymateb ysgrifenedig i | Yr | Terfyn | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | llythyr Heddlu Gogledd Cymru a dderbyniwyd ar 1 Mawrth 2019 | Ymgeisydd | Amser 7 | |
| 18 | Yr Ymgeisydd i ddiwygio WN1(4) i ddileu'r cyfeiriad at baragraff 2 a'i ddisodli â chyfeiriad at baragraff 3 | Yr Ymgeisydd | Terfyn Amser 7 | |
| 19 | Diwygio WN1 i gynnwys cyfeiriad at ofyniad am gyflwyno a chymeradwyo Cynllun Monitro/Lliniaru Hydroddaearegol ar gyfer Tre'r Gof a Chae Gwyn | Applicant | D7 | |
| 20 | Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (NWWT) i gyhoeddi PHN ynglŷn â'u pryderon ynglŷn â draenio | NWWT | Terfyn Amser 7 | |
| 21 | LlC i ddarparu PHN ynglŷn â gwaith archaeolegol | LlC | Terfyn Amser 7 | |
| 22 | LlC i gyflwyno adroddiad sy'n manylu ar ganfyddiadau'r gwaith archaeolegol rhagarweiniol a gynhaliwyd ar y safle a goblygiadau posibl hyn i'r cynnig | LlC | Terfyn Amser 7 | |
| 23 | LlC i gyflwyno cynnig ynglŷn â sut y gellid cyllido'r broses o archifo deunyddiau archaeolegol (yn enwedig y rhai hynny sy'n ddiraddiadwy) sydd eisoes wedi cael eu cloddio o ganlyniad i'r gwaith archaeolegol rhagarweiniol | LlC | Terfyn Amser 7 | |
| 24 | O ran gofynion o WN11-WN14, dylai'r Ymgeisydd ddarparu diffiniad o reolaeth tymor hir | Yr Ymgeisydd | Terfyn Amser 7 | |
| 25 | Egluro amcanion adfer campws y safle, gan gyfeirio'n benodol at greu cynefinoedd trwy ddulliau amaethyddol posibl | Yr Ymgeisydd | Terfyn Amser 7 | |
| 26 | LC1 – cynllun tirweddu a sgrinio yn ymwneud â'r maen hir a'r siambr gladdu – i'w drafod yn y Gwrandawiad Mater Penodol ar 7 Mawrth 2019 | Yr Ymgeisydd | Terfyn Amser 7 | |
| 27 | Dylid egluro 'awdurdod cyflawni' mewn perthynas ag Atodlen 21 | Yr Ymgeisydd | Terfyn Amser 7 | |
| 28 | Dylid egluro materion bioamrywiaeth mewn perthynas ag Atodlen 21 yn y Gwrandawiad Mater Penodol ar 8 Mawrth 2019 | Yr Ymgeisydd | Dydd Gwener | |
| 29 | Rhoi sylwadau ar faterion cyllid mewn perthynas ag Erthyglau drafft newydd 83 ac 84 | NWWT | Terfyn Amser 7 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 30 | Cofnodi sylwadau ar falltod mewn perthynas ag Erthygl 83 yn ysgrifenedig | Yr Ymgeisydd | Terfyn Amser 7 | |
| 31 | Mewn perthynas ag Erthyglau 83, 84 a 9:<br><br>1. Adolygu p'un a oes unrhyw hawliau pellach i iawndal y mae angen eu cynnwys yn yr Erthygl 83 ddrafft.<br>2. A ddylai lefel yr iawndal gael ei hasesu gan drydydd parti ac, os felly, a ddylai hyn gael ei gynnwys yn y drafft?<br>3. A all yr Ymgeisydd gadarnhau nad oes grymoedd eraill sy'n arwain at yr hawl i iawndal y mae'n rhaid sicrhau bod cyllid digonol ar gael ar ei gyfer?<br>4. Egluro sut y byddai'r warant yn cael ei sicrhau yn achos trosglwyddo buddiant y gorchymyn a ph'un a fyddai angen iddi gael ei sicrhau yn erbyn tir<br>5. Esbonio'r graddfeydd amser newydd arfaethedig mewn perthynas â Chaffael Gorfodol<br>6. Ystyried dull amgen o dan 84(1)(b) a 2(b) yn nhermau: "mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cymeradwyo (datganiad cyllido?) sy'n cadarnhau bod y datblygiad awdurdodedig yn debygol o gael ei gynnal mewn (x) blwyddyn ac na fydd yn cael ei atal o ganlyniad i anawsterau wrth ddod o hyd i'r cyllid angenrheidiol a'i sicrhau"<br>7. Erthygl 9 paragraff 3 – esbonio sut y byddai unrhyw drosglwyddai'n rhwym wrth unrhyw warantau mewn perthynas â chyllid | Yr Ymgeisydd | Terfyn Amser 7 | |
| 32 | PHN gan IACC sy'n rhoi diweddariad ar A106, gan gyfeirio'n benodol at unrhyw faterion perthnasol sy'n parhau heb eu datrys; llinell amser ar gyfer pryd y gallai'r rhain gael eu datrys a datrysiadau / awgrymiadau amgen ar gyfer sut y gellid ymdrin ag unrhyw faterion perthnasol sy'n parhau heb eu datrys os na fyddent wedi'u cynnwys yn y cytundeb A106 wedi'i gwblhau | IACC | Terfyn Amser 7 | |
| 33 | PHN gan Gyngor Sir Gwynedd (GCC) sy'n rhoi diweddariad ar A106, gan gyfeirio'n | GCC | Terfyn Amser 7 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | benodol at unrhyw faterion perthnasol sy'n parhau heb eu datrys; llinell amser ar gyfer pryd y gallai'r rhain gael eu datrys a datrysiadau / awgrymiadau amgen ar gyfer sut y gellid ymdrin ag unrhyw faterion perthnasol sy'n parhau heb eu datrys os na fyddent wedi'u cynnwys yn y cytundeb A106 wedi'i gwblhau | | | |
| 34 | PHN gan LlC sy'n rhoi diweddariad ar A106, gan gyfeirio'n benodol at unrhyw faterion perthnasol sy'n parhau heb eu datrys; llinell amser ar gyfer pryd y gallai'r rhain gael eu datrys a datrysiadau / awgrymiadau amgen ar gyfer sut y gellid ymdrin ag unrhyw faterion perthnasol sy'n parhau heb eu datrys os na fyddent wedi'u cynnwys yn y cytundeb A106 wedi'i gwblhau | LlC | Terfyn Amser 7 | |
| 35 | PHN gan CNC sy'n rhoi diweddariad ar A106, gan gyfeirio'n benodol at unrhyw faterion perthnasol sy'n parhau heb eu datrys; llinell amser ar gyfer pryd y gallai'r rhain gael eu datrys a datrysiadau / awgrymiadau amgen ar gyfer sut y gellid ymdrin ag unrhyw faterion perthnasol sy'n parhau heb eu datrys os na fyddent wedi'u cynnwys yn y cytundeb A106 wedi'i gwblhau | CNC | Terfyn Amser 7 | |
| 36 | PHN gan Gyrff Anllywodraethol Amgylcheddol (ENGOs) sy'n rhoi diweddariad ar A106, gan gyfeirio'n benodol at unrhyw faterion perthnasol sy'n parhau heb eu datrys; llinell amser ar gyfer pryd y gallai'r rhain gael eu datrys a datrysiadau / awgrymiadau amgen ar gyfer sut y gellid ymdrin ag unrhyw faterion perthnasol sy'n parhau heb eu datrys os na fyddent wedi'u cynnwys yn y cytundeb A106 wedi'i gwblhau | ENGOs | Terfyn Amser 7 | |
| 37 | PHN gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru sy'n rhoi diweddariad ar A106, gan gyfeirio'n benodol at unrhyw faterion perthnasol sy'n parhau heb eu datrys; llinell amser ar gyfer pryd y gallai'r rhain gael eu datrys a datrysiadau / awgrymiadau amgen ar gyfer sut y gellid ymdrin ag unrhyw faterion perthnasol sy'n parhau heb eu datrys os na fyddent wedi'u cynnwys yn y cytundeb A106 wedi'i gwblhau | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru | Terfyn Amser 7 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 38 | PHN gan Heddlu Gogledd Cymru sy'n rhoi diweddariad ar A106, gan gyfeirio'n benodol at unrhyw faterion perthnasol sy'n parhau heb eu datrys; llinell amser ar gyfer pryd y gallai'r rhain gael eu datrys a datrysiadau / awgrymiadau amgen ar gyfer sut y gellid ymdrin ag unrhyw faterion perthnasol sy'n parhau heb eu datrys os na fyddent wedi'u cynnwys yn y cytundeb A106 wedi'i gwblhau | Heddlu Gogledd Cymru | Terfyn Amser 7 | |
| 39 | Datrys materion sy'n parhau a chwblhau'r cytundeb A106 yn unol â'r dyddiadau yn y raddfa amser | Yr Ymgeisydd | Terfyn Amser 8 | |

The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

## Application by Horizon Limited for an Order granting Development Consent for the Wylfa Newydd Nuclear Power Station

## Hearing Action Points arising from the draft DCO Hearing held at the Trearddur Bay Hotel, on Wednesday 6 March 2019

| ACTION | DESCRIPTION | BY WHO | WHEN | COMMENTS |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Definition of commence in relation to j) temporary buildings – Applicant to discuss whether possible to define a maximum height/length/width for temporary buildings | Applicant | D8 | |
| 2 | Clarification of whether using first nuclear construction or first nuclear concrete as a trigger; once clarified provision of clear definition and a review of documents to ensure the correct phrase used throughout | Applicant | D7/8 | |
| 3 | Amend the definition of Environmental Statement (ES) to include the ES Addendum to address concerns regarding definition of maintenance and throughout DCO | Applicant | D7 | |
| 4 | Issues with Article 19 to be dealt with by Protective Provisions | Applicant/IACC | D7 | |
| 5 | Article 78 to be amended in light of Trinity House D6 submission (6-054) | Applicant | D8 | |
| 6 | Article 79 , Schedule 19, Paragraph 4, Subparagraph 2(d) should be in 1 not in 2 as currently is – to be amended | Applicant | D8 | |
| 7 | Amend Explanatory Memorandum to identify Welsh Government's responsibility with regards to Crown Land with a cross reference to the relevant plots in the Book of Reference | Applicant/WG | D8 | |
| 8 | Sewage Treatment Plant adjacent to Cestyll Garden to be either controlled through a requirement or a scheme listed in S21(4) to enable consultation with the Welsh Government and submission/approval by IACC to reflect its location adjacent to a designated heritage asset | Applicant | D8 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 9 | Applicant to consider whether work No 16 should be included in the list of works listed under 'other associated development' in Schedule 1 | Applicant | D7 | |
| 10 | IACC to provide details of an alternative fee structure or cost recovery scheme that they would wish to use for the discharging of requirements | IACC | D7 | |
| 11 | Post Hearing Note(PHN) from NRW to confirm the proposed wording regarding fees that has largely been agreed. Amended wording to be inserted into dDCO. | NRW/Applicant | D7 for NRW D8 for Applicant | |
| 12 | Applicant to check whether reference to figure D9-9 in Schedule 3(1) referred to in the 'Great Crested Newts Receptor Site' interpretation is correct. If incorrect, correct figure to be inserted. | Applicant | D7 | |
| 13 | Applicant to consider recasting the Phasing Strategy (PW2) based on time periods and if not why not and also to consider whether correctly titled | Applicant | D7 | |
| 14 | WG to provide a PHN as to why they consider that the issue of potential noise and disturbance from blasting/tunnelling/earthworks would not prevent the Temporary Workers Accommodation coming forward earlier in the process. | WG | D7 | |
| 15 | WG to provide a PHN to provide an update on the results of their discussions on transport matters with Applicant and the two points that remain outstanding. | WG | D7 | |
| 16 | IACC to provide detail as to whether a transport incident plan or other similar plan was recommended as a condition for the planning application for Site Preparation and Clearance (SPC) works | IACC | D7 | |
| 17 | Applicant to provide written response to North Wales Police letter received on 1 March 2019 | Applicant | D7 | |
| 18 | Applicant to amend WN1(4) to delete reference to paragraph 2 and replace with reference to paragraph 3 | Applicant | D7 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 19 | WN1 to be amended to include a reference to a requirement for the submission and approval of a Hydrogecological Monitoring/Mitigation Scheme for Tre'r Gof and Cae Gwyn | Applicant | D7 | |
| 20 | NWWT to issue a PHN regarding the concerns that they have with regards to drainage | NWWT | D7 | |
| 21 | WG to provide a PHN regarding archaeological works | WG | D7 | |
| 22 | WG to submit a report detailing the findings of the preliminary archaeological works that have been carried out at the site and the implication that this may have for the proposal | WG | D7 | |
| 23 | WG to submit a proposal re archiving of archaeological materials (particularly those that are degradable) that have already been excavated as a result of the preliminary archaeological works could be financed | WG | D7 | |
| 24 | In regard to requirements from WN11-WN14, the Applicant to provide a definition of long-term management | Applicant | D7 | |
| 25 | Clarification of site campus restoration objectives with particular reference to habitat creation derived through potential agricultural methods | Applicant | D7 | |
| 26 | LC1 – a landscaping and screening scheme in regard to standing stone and burial chamber – to be discussed ISH 7 March 2019 | Applicant | D7 | |
| 27 | 'Discharging authority' to be clarified with regard to Schedule 21 | Applicant | D7 | |
| 28 | Biodiversity matters in relation to Schedule 21 to be clarified ISH 8 March 2019 | Applicant | Friday | |
| 29 | To provide comments on funding matters in relation to new draft Articles 83 and 84 | NWWT | D7 | |
| 30 | Put comments on blight in relation to Article 83 in writing | Applicant | D7 | |
| 31 | In relation to Articles 83, 84 and 9:<br><br>1. Review whether there are any further rights to compensation that need to be included within draft Article 83. | Applicant | D7 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 2. Should there be any independent third party assessment of the level of compensation and if so should this be in the drafting?<br>3. Can Applicant confirm  that there are no other powers giving rise to the right to compensation for which adequate funding must be in place?<br>4. Clarify how the guarantee would be secured in the event of transfer of the benefit of the order and whether it would need to be secured against land<br>5. Explain the proposed new timeframes in relation to Compulsory Acquisition<br>6. Consider an alternative mechanism under 84(1)(b) and 2(b) in terms: "the Secretary of State has approved a (funding statement?) that confirms that the authorised development is likely to be undertaken (x) years and will not be prevented due to difficulties in sourcing and securing the necessary funding"<br>7. Article 9 para 3 explain how any transferee would be bound by any guarantees in respect of funding? | | | |
| 32 | PHN from IACC to provide an update on S106 with particular reference to any substantive matters that remain outstanding; a timeline for when these may be resolved and alternative solutions/suggestions for how any outstanding substantive matters could be dealt with if they were not included in the completed S106. | IACC | D7 | |
| 33 | PHN from GCC to provide an update on S106 with particular reference to any substantive matters that remain outstanding; a timeline for when these may be resolved and alternative solutions/suggestions for how any outstanding substantive matters could be dealt with if they were not included in the completed S106. | GCC | D7 | |
| 34 | PHN from WG to provide an update on S106 with particular reference to any substantive matters that remain outstanding; a timeline for when these may be resolved and alternative solutions/suggestions for how any outstanding substantive matters could be | WG | D7 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | dealt with if they were not included in the completed S106. | | | |
| 35 | PHN from NRW to provide an update on S106 with particular reference to any substantive matters that remain outstanding; a timeline for when these may be resolved and alternative solutions/suggestions for how any outstanding substantive matters could be dealt with if they were not included in the completed S106. | NRW | D7 | |
| 36 | PHN from eNGOs to provide an update on S106 with particular reference to any substantive matters that remain outstanding; a timeline for when these may be resolved and alternative solutions/suggestions for how any outstanding substantive matters could be dealt with if they were not included in the completed S106. | eNGOs | D7 | |
| 37 | PHN from North Wales Fire and Rescue Service to provide an update on S106 with particular reference to any substantive matters that remain outstanding; a timeline for when these may be resolved and alternative solutions/suggestions for how any outstanding substantive matters could be dealt with if they were not included in the completed S106. | North Wales Fire and Rescue | D7 | |
| 38 | PHN from North Wales Police to provide an update on S106 with particular reference to any substantive matters that remain outstanding; a timeline for when these may be resolved and alternative solutions/suggestions for how any outstanding substantive matters could be dealt with if they were not included in the completed S106. | North Wales Police | D7 | |
| 39 | Resolve outstanding matters and complete S106 according to dates in timescale | Applicant | D8 | |